



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol **Yr Athrofa**
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together


**Cwricwlwm ar gyfer
lleoliadau
meithrin a ariennir
nas cynhelir**



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol **Yr Athrofa**
Yr Athrofa Professional Learning Partnership


Nod y sesiwn

Pwrpas y sesiwn hon yw archwilio'r **Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir**, gan alluogi i fagu hyder wrth ddeall a chymhwyso ei ofynion.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir



Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir



Datblygwyd y cwricwlwm hwn ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir am ei fabwysiadu, pe bydden nhw'n dymuno gwneud hynny

Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir wedi cael ei ddatblygu i gefnogi dysgwyr ar ddechrau'r continwwm dysgu 3 i 16, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n cefnogi dysgu a datblygiad y dysgwyr hyn i sicrhau eu bod nhw'n cael y dechrau gorau posib ar eu taith dysgu.





Mae'r cwricwlwm hwn yn bodloni'r gofynion canlynol:

- mae'n galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffordd a ddisgrifir ym mhedwar diben y cwricwlwm
- mae'n eang ac yn gytbwys
- mae'n addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau
- mae'n darparu llwybr cynnydd priodol i bob dysgwr



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives


Mae'r cwricwlwm hwn hefyd yn:

- cwmpasu'r chwe maes dysgu a phrofiad
- cwmpasu'r 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig
- adlewyrchu egwyddorion cynnydd
- cwmpasu elfennau gorfodol y cwricwlwm, gan gynnwys y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol

Dylai lleoliadau sy'n dewis mabwysiadu'r cwricwlwm hwn ei ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gefnogi cynllunio effeithiol er mwyn sicrhau cwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol ar gyfer ein dysgwyr ieuengaf.



Oedolion sy'n galluogi dysgu




<https://vimeo.com/921040348?fl=pl&fe=cm>



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Profiadau sy'n ennyn diddordeb

Daw'r tri datganiad canlynol o adran o'r enw 'Make learning authentic and meaningful', yn *How children learn: Principles to underpin curriculum design* (Hargraves, 2021).

- *"Children learn best through activities that they perceive as meaningful and useful."*
- *"Children's interests are a source of intrinsic motivation, involving them in exploring and acquiring knowledge of their surrounding environment."*
- *"Extensive and deep knowledge of an interest supports children to learn in rich detail."*

Ystyriwch y datganiadau.

- Gyda pha un o'r datganiadau ydych chi'n cytuno fwyaf?
- Beth mae 'ystyrlon' (*meaningful*) yn ei olygu i chi? Sut mae hyn yn debyg neu'n wahanol i 'bwrpasol' (*purposeful*)?



Sut ydyn ni'n darparu amgylcheddau sy'n annog dysgu dilys a phwrrpasol?

Ystyriwch y ffotograffau a meddyliwch.

- Sut mae pob un o'r amgylcheddau hyn yn helpu i annog dysgu dilys a phwrrpasol?

Mae plant a phobl ifanc yn dysgu'n dda wrth gymryd rhan weithredol mewn profiadau sy'n ysgogi eu diddordeb, yn tanio dychymyg, yn ysbrydoli chwilfrydedd ac yn hybu ymagweddau cadarnhaol. Dylai'r profiadau hyn annog dysgwyr i ymchwilio, archwilio, creu a chymryd rhan weithredol yn eu dysgu.

Bydd profiadau perthnasol ac ystyrlon sydd wedi'u gwreiddio mewn cyd-destunau bywyd go iawn yn galluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau, cymhwyso gwybodaeth ac atgyfnerthu sgiliau.

Addysgeg ac Amgylcheddau effeithiol

Mae addysgeg yn air a ddefnyddir i ddisgrifio'r dull neu'r arfer o addysgu. Mae gweithio yn y blynyddoedd cynnar yn cynnig cyfleoedd unigryw a gwych i blant gymryd rhan mewn chwarae, bod y tu allan, profi dysgu ystyrlon, a mwynhau symud corfforol. Daw'r profiadau hyn at ei gilydd i ffurfio addysgeg y cwricwlwm hwn ac fe'u disgrifir yn y cwricwlwm fel:

- chwarae a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae
- bod y tu allan
- dysgu dilys a phwrpasol
- llythrennedd corfforol



Darllenwch yr astudiaeth achos.

- Sut mae Ysgol Feithrin Pontypŵl wedi gwneud defnydd o amgylchedd sy'n newid i greu profiadau sy'n ennyn diddordeb er mwyn helpu'r plant i wneud cynnydd yn eu dysgu?
- Pa syniadau o'r astudiaeth achos y gellid eu datblygu yn y lleoliad yr ydych chi ynddo?


[Astudiaeth achos - Ysgol Pontypwl.pdf](#)

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau gorfodol ym mhob rhan o'r cwricwlwm cyfan, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod plant yn datblygu ac yn gwneud cynnydd yn y sgiliau hyn.

Wrth gynllunio profiadau dysgu, dylen ni sicrhau y caiff plant gyfleoedd i gymhwyso, meithrin ac ymestyn y sgiliau hyn mewn cyd-destunau ystyrlon, gan ddefnyddio'r pum llwybrau datblygiadol.






Y pum llwybr datblygu

Mae'r pum llwybr datblygu allweddol yn cydnabod y dysgu a'r datblygu sy'n hanfodol i blant ifanc.

Mae'r llwybrau hyn yn rhoi lle canolog i'r plentyn, yn ddibynnol ar ei gilydd, ac maen nhw yr un mor bwysig â'i gilydd. Maen nhw wedi eu datblygu er mwyn sicrhau y gellir helpu plant i wneud cynnydd ar eu cyflymder eu hunain ac yn yr amgylchedd dysgu a ffafrir ganddyn nhw.

Perthyn


- Pan ddywedir bod plant yn cael ymdeimlad o berthyn, beth mae hyn yn ei olygu i chi?
- Beth ydych chi'n meddwl sy'n galluogi plant i ddatblygu eu hymdeimlad o berthyn?
- Pam mae'n bwysig i ymarferwyr ddeall eu rôl wrth greu ymdeimlad o berthyn rhyngddyn nhw eu hunain, y teulu a'r gymuned?
- Sut mae perthyn yn effeithio ar y pum llwybr datblygu?
- Sut ydych chi'n cynllunio amgylchedd dysgu sy'n cefnogi ymdeimlad o berthyn?



Maslow (1943)

Cyfathrebu

- Beth yw'r sgiliau sy'n gysylltiedig â lleferydd, iaith a chyfathrebu?
- Pam ei bod yn bwysig i ymarferwyr ddeall eu rôl wrth gefnogi cyfathrebu plant?
- Pa strategaethau y gall oedolion eu defnyddio i gefnogi sgiliau cyfathrebu plant?
- Sut gallwch chi sicrhau bod eich amgylchedd yn gefnogol i sgiliau cyfathrebu plant?



Cyfnodau Datblygiad Iaith a Lleferydd welsh A1 poster

 2 – 3 oed	- Dechrau mynegi diddordeb mewn sgysiau ond pethau eraill yn dwyn ei sylw - Gwrando ar sgysiau sy'n cyfeirio ato, ond mae'n ei chael yn anodd heb gliwiau e.e. 'stopia a gwranda'	- Dod i ddeall cysyniadau syml gan gynnwys yn/ ar/o dan/mawr/bach - Deall brawddegau fel 'rho'r tedi yn y bocs' - Deall cwestiynau syml sy'n defnyddio 'pwyl' a 'beth' ond ddim 'pam' - Deall stori syml pan fo lluniau ar gael i gefnogi'r stori	- Defnyddio 300 o eiriau gan gynnwys iaith ddisgrifiadol, defnydd o amser, lle a phwrpas - Cysylltu pedwar neu bump gair gyda'i gilydd - O bosibl yn siarad ag atal dweud pan fo'n ystyried beth i'w ddweud - Gallu defnyddio rhagenwau (fi, fe, hi), geiriau lluosog ac arddodiaid (yn, ar, o dan) - Cael trafferth dweud r, th, si, dd, ts, ng, ch, ll	- Cynnal sgwrs ond yn neidio o un pwnc i'r llall - Ymddiddori yn yr hyn mae pobl eraill yn ei chwarae ac yn ymuno â nhw - Mynegi emosiynau tuag at oedolion a chyfoedion gan ddefnyddio geiriau yn hytrach nag ystumiau yn unig
 3 – 4 oed	- Mwynhau gwrando ar straeon - Dal yn ei chael yn anodd gwneud mwy nag un peth ar y tro, felly ddim yn gallu gwrando'n rhwydd ar siaradwr tra'n gwneud rhywbeth arall. Rhaid iddo ganolbwyntio ar y dasg a'r siaradwr ar wahân	- Deall cwestiynau neu gyfarwyddiadau ac iddynt ddwy ran e.e. 'cer i ôl dy siwmpwr a cher i sefyll wrth y drws' - Deall cwestiynau sy'n holi 'pam' - Yn nes at bedair oed, yn ymwybodol o amser mewn perthynas â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol e.e. 'heddiw mae'n heulog, ddoe roedd hi'n bwrw glaw, tybed beth fydd y tywydd yfory?'	- Defnyddio brawddegau sy'n cynnwys pedwar i chwe gair e.e. fi eisie chwarae â'r car; beth yw hwnna? - Defnyddio ffurfiau'r gorffennol a'r dyfodol - O bosibl yn parhau i gael problemau gyda geiriau afreolaidd e.e. dethes i, ethes i, rhedeges i - Gallu cofio straeon hir ac yn mwynhau eu hadrodd ac yn hoffi canu caneuon - Yn cael problem wrth dweud r, th, si, ts, ng, ch, ll	- Deall cymryd tro ynghyd â deall bod angen rhannu gydag oedolion a chyfoedion - Dechrau sgysiau - Mwynhau chwarae gyda chyfoedion - Yn gallu dadlau gydag oedolion a chyfoedion os yw'n anghytuno – defnyddio geiriau yn hytrach na gweithredoedd yn unig
 4 – 5 oed	Mae sgiliau canolbwyntio nawr yn fwy hyblyg – gall ddeall cyfarwyddiadau llafar sy'n berthnasol i dasg gan edrych ar y siaradwr heb roi'r gorau i'r dasg y mae'n ei wneud	- Gallu dilyn straeon syml heb luniau - Deall cyfarwyddiadau sy'n cynnwys trefn amser e.e. 'yn gyntaf, wedyn, yn olaf' - Yn deall ansoddeiriau e.e. 'meddal, caled, llyfn' - Yn ymwybodol o hiwmor mwy cymhleth, yn chwethrin ar jôcs	- Defnyddio brawddegau sydd wedi'u ffurfio'n gywir ond mae'n bosibl y bydd rhai camgymeriadau gramadegol yn parhau o hyd e.e. wnes i chwarae gyda Ben amser cinio - Oedolion a chyfoedion yn ei ddeall yn rhwydd, dim ond ychydig o broblemau llefaru er enghraifft 'th', 'r' 'll' a chyfuniadau o dair cytsain ee 'sgriblo' - Yn aml yn gofyn beth yw ystyr geiriau anghyfarwydd ac o bosibl yn eu defnyddio ar hap	- Dewis ei ffrindiau ei hun - Ar y cyfan yn cydweithio gyda'i ffrindiau - Yn gallu cynllunio gweithgareddau ar gyfer adeiladu pethau a gweithgareddau chwarae rôl - Cynnal sgysiau hirach a chymryd tro i sgwrsio - Yn defnyddio iaith i gasglu gwybodaeth, i negodi, i drafod teimladau/syniadau ac i fynegi barn

Astudiaeth achos : Ystumiau

Ystyriwch yr enghraifft hwn gan ymarferydd.

Yn fy lleoliad, byddwn ni'n defnyddio ystumiau wrth roi cyfarwyddiadau. Mae'n helpu'r plant i ddeall beth rydyn ni'n gofyn iddyn nhw wneud. Er enghraifft, pan rydyn ni'n rhoi'r cyfarwyddyd 'golchi dwylo', byddwn ni'n rhwbio ein dwylo gyda'i gilydd i wneud yr arwydd am 'olchi'.

Mae'r ystum yn helpu'r plant i ddeall beth rydyn ni'n gofyn iddyn nhw i'w wneud. Weithiau bydd y plant yn gwneud beth rydyn ni'n ei ofyn ac weithiau byddan nhw'n ymateb gan ddefnyddio geiriau. Rydyn ni'n defnyddio ystumiau yn gyson wrth gyfathrebu arferion dydd i ddydd y lleoliad. Maen nhw'n gwybod fod amser byrbryd yn dod nesaf!

Ystyriwch y cwestiynau canlynol.

- Sut gallwch chi ddefnyddio ystumiau yn eich trefn ddyddiol i gefnogi dealltwriaeth plant o'r iaith siarad?
- Sut ydych chi'n ymateb i ystumiau plant? Ydych chi'n edrych ar yr hyn maen nhw'n ei ddangos i chi ac yn ymateb yn gyflym?

Cefnogi cyfathrebu

Gall oedolion gefnogi'r cyfathrebu a wna plant trwy:

- **fodelu** siarad, darllen ac ysgrifennu, a thynnu sylw at brint yn yr amgylchedd
- **darparu** cyfleoedd, defnyddiau ac offer o ansawdd uchel, gan gynnwys llyfrau
- **arsylwi** plant – yr hyn y maen nhw'n ei wneud ac yn ei ddweud, eu diddordebau a'u storïau
- **rhngweithio** wrth i blant ddarllen ac ysgrifennu
- **torri ar draws** mewn ffordd sensitif ac yn gadarnhaol (nid ymyrryd)
- **gwerthuso** er mwyn myfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd, asesu'r strategaethau a ddefnyddiwyd a'r deilliannau a ddilynodd

Addaswyd a chyfieithwyd o *Threads of Thinking*, Cathy Nutbrown, 3ydd Argraffiad (SAGE, 2006).



Archwilio

- Pan ddywedir bod plant yn dysgu drwy ‘archwilio’, beth mae hyn yn ei olygu i chi?
- Beth ydych chi’n meddwl sy’n galluogi plant i ddatblygu eu sgiliau i ‘archwilio’?
- Pam mae’n bwysig i ymarferwyr ddeall eu rôl wrth ddatblygu sgiliau archwilio plant?
- Sut mae’r amgylchedd dysgu yn cefnogi datblygiad plant i archwilio?
- Sut mae archwilio yn cyd-fynd â’r pum llwybr datblygu a’r amgylchedd dysgu?



Astudiaeth achos : Archwilio



Mae [Y Llun Hwn](#) gan Awdur Anhysbys wedi'i drwyddedu dan [CC BY-SA](#)

Darllenwch yr astudiaeth achos yn yr atodiad isod ac ystyried y cwestiynau canlynol.

- Beth oedd rôl yr oedolyn yn yr archwiliad hwn?
- Pa brofiadau a ddarparwyd gan yr oedolyn? Sut gwnaeth y rhain annog archwilio a chwarae rhydd?
- Pa ran chwaraeodd y plentyn?
- Sut y gwnaeth y profiadau hyn helpu i ddatblygu sgiliau?
- Ym mha fodd gwnaethon nhw gysylltu â'r llwybrau datblygu ac ymarfer sy'n rhoi lle canolog i'r plentyn?

[Astudiaeth achos - Myfyrio ar archwilio - Madarch.pdf](#)

Datblygiad corfforol

- Beth yw datblygiad corfforol?
- Sut y gellir datblygu datblygiad corfforol o fewn ac ar draws y pedwar llwybr datblygu arall?
- Pam fod datblygiad corfforol yn bwysig?
- Sut gallwch chi gefnogi plant i wneud cynnydd gyda'u datblygiad corfforol?
- Sut bydd datblygiad corfforol yn cyfrannu at iechyd a lles sy'n para am oes?



Pwysigrwydd bod yn gorfforol egniol



Mae Erthygl 12 (1966) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol yn cydnabod hawl pawb i allu mwynhau'r safon uchaf bosibl o iechyd corfforol a meddyliol.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn diffinio iechyd fel cyflwr o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn ac nid absenoldeb afiechyd neu lesgedd yn unig.

Mae bod yn gorfforol egniol yn un o bum cam y GIG i wella iechyd meddwl a lles.

Os yw plant yn mwynhau bod yn egniol, a'u bod yn datblygu hyder yn eu gallu, yn dysgu sgiliau symud allweddol a ble i'w defnyddio, bydd hyn yn eu meithrin i fwynhau gweithgarwch corfforol a gwell iechyd a lles ar hyd eu hoes.

Lles

- Sut mae oedolion sy'n galluogi dysgu yn cefnogi lles plant?
- Pa brofiadau sy'n ennyn diddordeb sydd gennyn ni yn ein hymarfer ar hyn o bryd er mwyn cynnal lles plant? Sut y gellir datblygu'r rhain ymhellach?
- Sut gallwn ni fod yn sicr bod ein hamgylchedd effeithiol yn gefnogol yn emosiynol?
- Sut mae sicrhau bod ein haddysgeg yn cefnogi lles plant?



Taith gerdded drwy'r goedwig

Gall taith gerdded ymwybyddiaeth ofalgar gyda phlant ddangos lles ar waith.




Meddyliwch am fynd â grŵp o blant am dro drwy goedwig.

- Beth allai'r plant gael profiad ohono ar y daith gerdded hon?
- Allwch chi wneud cysylltiadau rhwng y cyfleoedd dysgu y mae'r daith gerdded yn eu cynnig a sut y gall y rhain ddylanwadu ar les plentyn?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Y pum llwybr datblygu: Safbwynt plentyn

Mynegir y pum llwybr datblygu o safbwynt plentyn drwy ddefnyddio'r datganiadau:

- Mae angen i mi ...
- Rwy'n dysgu sut i ...
- Mae fy ... yn cael ei gyfoethogi gan ...

Ystyried

- Pam ydych chi'n meddwl y mabwysiadwyd y dull hwn?
- Sut y bydd yn eich helpu chi fel oedolyn sy'n galluogi dysgu i ddiwallu anghenion dysgu a datblygu'r plant yn eich lleoliad?


Deall y llwybrau datblygiadol

Maen nhw'n ddatganiadau cynhwysol sy'n berthnasol i blant o bob gallu. Dylid defnyddio'r datganiadau '**Mae angen i mi ...**' er mwyn helpu i gynllunio darpariaeth ac nid at ddibenion asesu crynodol.


Mae'r datganiadau '**Rwy'n dysgu sut i ...**' yn dangos y sgiliau a'r ymagweddau y mae plant yn eu datblygu ar eu taith ddysgu.

Mae'r datganiadau '**Mae fy ... yn cael ei gyfoethogi gan ...**' yn disgrifio'r amodau delfrydol a all gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol y plentyn.

Mae'r llwybrau datblygiadol canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn a'r hyn y gallwn ni ei wneud i'w helpu i ddatblygu ac annog chwilfrydedd ac archwilio.



Arsylwi Plant



Mae arsylwi'n rhan allweddol o'n hymarfer.

Dylai fod yn seiliedig ar ein gwybodaeth drylwyr ym maes datblygiad plant, a dylai'r plentyn fod wrth wraidd y broses.



Asesu Plant



Mae i asesu dair prif rôl:

- helpu'r plentyn unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- adnabod, nodi a myfyrio ar gynnydd unigolion
- deall cynnydd grŵp dros amser er mwyn helpu'r lleoliad i fyfyrrio ar ei ymarfer.



Cynhwysiant

Mae ymarfer cynhwysol yn cydnabod, yn parchu ac yn hyrwyddo amrywiaeth plant a theuluoedd, ac yn sicrhau eu bod yn cael yr un driniaeth, cynrychiolaeth, cyfleoedd a pharch.



Mae [Y Llun Hwn](#) gan Awdur Anhysbys
wedi'i drwyddedu dan [CC BY-SA-NC](#)

Dylai ein hamgylchedd fod yn:

- drefnus er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb
- cynnwys cynrychiolaeth amrywiol a dilys o fewn adnoddau, delweddau a deunydd darllen (o ran rhywedd, gallu, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, ac ati)
- gwneud addasiadau priodol er mwyn dileu rhwystrau sy'n atal plant rhag cymryd rhan
- cynnig adnoddau penagored sy'n adlewyrchu amrywiaeth ac nad ydyn nhw'n rhyw-benodol.

Profiadau niweidiol yn ystod plentynnod

Mae 'profiadau niweidiol yn ystod plentynnod' yn cyfeirio at ddigwyddiadau trawmatig y gall plentyn eu hwynebu cyn iddo gyrraedd 18 oed. Gallai'r rhain gynnwys: cam-drin, esgeulustod, profedigaeth, rhieni'n gwahanu, rhiant yn y carchar, a dod i gysylltiad ag achosion o gamddefnyddio sylweddau neu drais domestig.



Cyfnodau pontio

Cyfnodau o newidiadau sy'n digwydd ym mywyd plentyn ac sy'n golygu bod angen iddo addasu i amgylchiadau newydd yw cyfnodau pontio.


Mae tri prif fath o gyfnod pontio.

- Llorweddol
- Fertigol
- Lluosog



Gweithgaredd

Gan ddefnyddio'r [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir](#) a'r wybodaeth rydych chi wedi ei ddysgu heddiw, cyd weithiwch i gwblhau'r weithgaredd [Gweithgaredd Cwricwlwm lleoliadau na gynhelir.docx](#)



Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2022) Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas gynhelir Ar gael yn: [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir](#) (Cyrchwyd: 05 Hydref 2026)

Llywodraeth Cymru (2022) Deall y pum llwybr datblygu ac addysgeg. Ar gael yn: [View – Hwb](#) (Cyrchwyd: 4 Hydref 2026)

Llywodraeth Cymru (2022) Datblygiad Plant *Dysgu proffesiynol: cefnogaeth dysgu sylfaen i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau* Ar gael yn: [View – Hwb](#) (Cyrchwyd: 05 Hydref 2026)